Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Yr Unfed Adroddiad ar Hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Gorffennaf 2025

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Yr Unfed Adroddiad ar Hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Gorffennaf 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion** ..... **5**

**1. Cyflwyniad** ..... **6**

**2. Ystyried y gŵyn** ..... **7**

Ymchwiliad i Weinidog ..... 7

**3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor** ..... **9**

Penderfyniad y Pwyllgor ..... 9

Argymhelliad y Pwyllgor ..... 10

**4. Gwersi a ddysgwyd o'r gŵyn hon** ..... **11**

**Atodiad A – Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau Dros Dro** ..... **14**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Senedd, yn unol â pharagraff 8.22(a) o'r Weithdrefn, fod achos o dorri'r Cod wedi'i ganfod ond na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach. ........ Tudalen 10

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Llywydd y dylid diwygio'r Ffurflen i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu'r dyddiad pryd y cododd y buddiant, pryd y cafodd ei ddiwygio, a phryd y daeth i ben, a bod y dyddiad hwn a'r dyddiad y diweddarwyd y Gofrestr yn cael eu cyhoeddi ar y Gofrestr. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn diweddaru'r Canllawiau yn unol â hynny ........ Tudalen 13

# 1. Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor:

> *"mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau…ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."*[2]

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.23 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd[3] ("y Weithdrefn") ac mae'n ymwneud â chŵyn yn erbyn Eluned Morgan AS.

**3.** Mae adroddiad y Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd") ar ei ymchwiliad i'r gŵyn wedi'i atodi yn Atodiad A. Mae'n nodi manylion y gŵyn a chasgliadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd.

**4.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gŵyn a thrafodaethau'r Pwyllgor wrth ddod i benderfyniad.

**5.** Datganodd Hannah Blythyn AS fuddiant perthnasol wrth ystyried yr adroddiad hwn fel Aelod o Unite. Datganodd Tom Giffard AS fuddiant perthnasol wrth ystyried yr adroddiad hwn gan ei fod yn adnabod yr achwynydd.

**6.** Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw ac i'r Achwynydd.

[1] Rheolau Sefydlog
[2] Rheol Sefydlog 22.2(i)
[3] Gweithdrefn y Senedd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

# 2. Ystyried y gŵyn

**7.** Trafododd y Comisiynydd gŵyn mewn perthynas ag Eluned Morgan AS ("yr Aelod") am fethu â datgan buddiant perthnasol cyn cymryd rhan yn y trafodion yng nghyfarfod llawn y Senedd ar 17 Medi 2024.

**8.** Mae adroddiad y Comisiynydd yn nodi, yn ystod datganiad ar Tata Steel, fod yr Aelod wedi gwneud dau gyfeiriad at Unite the Union, y mae'n aelod ohono, ac y derbyniodd nawdd o £3,500 ganddo.

**9.** Mae Rheol Sefydlog 13.8A yn nodi "Cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y cyfarfod llawn, rhaid i Aelod ddatgan unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod."

**10.** Mae paragraff pedwar o'r Cod Ymddygiad yn nodi:

> *"Yn ogystal â'r Cod hwn, rhaid i Aelodau gydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Senedd, gan gynnwys ei Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â datgan a chofrestru buddiannau ariannol a buddiannau eraill ac aelodaeth o gymdeithasau. Gellir cyfeirio achosion honedig o dorri'r Rheolau Sefydlog hyn at Gomisiynydd Safonau'r Senedd i ymchwilio iddynt. Am y rheswm hwn, nid yw'r Cod yn cynnwys Rheol benodol ar ddatgan a chofrestru buddiannau o'r fath."*

**11.** Cyfarfu'r Pwyllgor ar 9 a 17 Mehefin 2025 i ystyried adroddiad y Comisiynydd a dod i'w gasgliad mewn perthynas â'r gŵyn hon.

**12.** Cafodd y Pwyllgor ragor o dystiolaeth gan y Comisiynydd ar y gŵyn hon yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin 2025.

## Ymchwiliad i Weinidog

**13.** Mae awdurdodaeth y Comisiynydd i ymchwilio i gwynion yn dibynnu ar a yw'r gŵyn yn honni methiant i gydymffurfio â "darpariaeth berthnasol" fel y'i diffinnir yn adran 6(1)(3) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ("y Mesur").

**14.** Mae'r Cod Ymddygiad yn "ddarpariaeth berthnasol", yn yr un modd â darpariaethau penodol o'r Rheolau Sefydlog gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chofrestru neu ddatgan buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill[4].

**15.** Mae Adran 8 o'r Mesur yn atal y Comisiynydd rhag mynegi barn ar faterion sy'n ymwneud â Chod Cymreig ar gyfer Gweinidogion, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â safonau ymddygiad a gynhwysir mewn Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion[5], neu a allai gael ei chynnwys mewn Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion[6]. Fodd bynnag, mae'r Mesur yn nodi y dylai darpariaeth o'r fath ar safonau ymddygiad fod yn un:

> *(iv) sy'n ceisio cymhwyso safonau ymddygiad sy'n wahanol i'r rheini sy'n gymwys i Aelodau o'r Senedd yn gyffredinol, neu sy'n ychwanegol atynt, ac*

**16.** Nid yw Cod Gweinidogion presennol Cymru yn gwneud unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas â datganiadau o fuddiant yn nhrafodion y Senedd a phe bai'n ceisio gwneud hynny, byddai'r ddarpariaeth ond yn dod o fewn y gwaharddiad ar y Comisiynydd i fynegi barn ar y Cod Gweinidogol o dan adran 8(1) i'r graddau y byddai'n ceisio cymhwyso safonau ymddygiad sy'n wahanol i'r rheini sy'n gymwys i Aelodau o'r Senedd yn gyffredinol, neu sy'n ychwanegol atynt.[7]

**17.** O ystyried hyn, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y gŵyn hon yn dderbyniadwy i'r Comisiynydd ymchwilio iddi.

[4] Adran 6(1)(3)(a)(i) o'r Mesur
[5] Adran 8 (1)(a) o'r Mesur
[6] Adran 8 (1)(b) o'r Mesur
[7] Cod y Gweinidogion | LLYW.CYMRU

# 3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor

**19.** Bu'r Pwyllgor yn trafod p'un a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).[8]

**20.** Wrth drafod a fu achos o dorri'r Cod, adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Comisiynydd fel y'u nodir yn ei adroddiad.

**21.** Ni fanteisiodd yr Aelod ar y cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r Pwyllgor.

## Penderfyniad y Pwyllgor

**22.** Nododd y Pwyllgor fod gan yr Aelod rodd gan Unite the Union wedi'i nodi ar ei chofrestr ar gyfer y Chweched Senedd, a bod Unite yn Undeb Llafur cynrychioliadol yng ngwaith dur Tata ym Mhort Talbot.

**23.** Nododd y Pwyllgor, wrth ymateb i gwestiynau ynghylch ei datganiad ar Tata Steel, fod yr Aelod wedi gwneud dau gyfeiriad at Unite the Union, a ddisgrifiwyd fel 'sylwadau didaro' gan y Comisiynydd.

**24.** Nododd y Pwyllgor hefyd farn y Comisiynydd nad oedd dim i awgrymu bod buddiannau cofrestredig yr Aelod wedi dylanwadu ar ei chyfraniad i'r trafodion.

**25.** O ystyried canfyddiad y Comisiynydd 'nad oes dim i awgrymu bod buddiannau cofrestredig yr Aelod wedi dylanwadu ar ei chyfraniad i'r trafodion', gofynnodd y Pwyllgor am esboniad pellach gan y Comisiynydd ynghylch sut y daeth i'r casgliad y gallai eraill feddwl yn rhesymol y gallai'r buddiant fod wedi dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod.

**26.** Nododd y Comisiynydd mai'r gofyniad yn ôl y Rheol Sefydlog yw y gellid ystyried yn rhesymol bod y buddiant perthnasol wedi dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod, ac nid p'un a oedd wedi gwneud hynny mewn gwirionedd. Ar y sail hon, daeth y Comisiynydd i'r casgliad y gallai rhywun ystyried yn rhesymol y gallai buddiant perthnasol yr Aelod fod wedi dylanwadu ar ei chyfraniad.

**27.** Ar ôl cael yr esboniad ychwanegol, mae'r Pwyllgor yn derbyn canfyddiad y Comisiynydd y gallai

…aelod o'r cyhoedd, fel yr Achwynydd, feddwl yn rhesymol y gallai aelodaeth yr Aelod o Unite the Union a'i derbyniad, ar ddyddiad anhysbys, o £3500 oddi wrth y sefydliad ddylanwadu ar ei chyfraniad i'r trafodion.

[8] Rheol Sefydlog 22.2(i)

**28.** Ar ôl ystyried canfyddiadau a chasgliadau'r Comisiynydd, ynghyd â'r dystiolaeth ategol a ddarparwyd, cytunodd y Pwyllgor bod achos o dorri'r Cod wedi digwydd.

Mae'r Pwyllgor yn canfod bod Eluned Morgan AS wedi torri Rheol Sefydlog 13.8(A) sy'n ddarpariaeth berthnasol o'r Cod Ymddygiad.

## Argymhelliad y Pwyllgor

**29.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod unrhyw achos o dorri'r Cod Ymddygiad neu ddarpariaeth berthnasol gan unrhyw Aelod o'r Senedd yn fater difrifol. Mae enw da Senedd Cymru, a ffydd a hyder y cyhoedd yn y sefydliad, yn dibynnu ar allu'r Aelodau i ddangos uniondeb ac arweinyddiaeth drwy eu gweithredoedd.

**30.** Wrth ddod i'w benderfyniad, nododd y Pwyllgor yr esboniad a ddarparwyd gan yr Aelod ynghylch pam nad oedd hi'n ystyried bod ei methiant i ddatgan yn torri'r Rheolau Sefydlog (yn benodol 13.8A). Mae'r Pwyllgor yn ystyried rhai o'r pwyntiau hyn ymhellach yn y bennod nesaf.

**31.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â chanfyddiad y Comisiynydd, er bod y cyfeiriadau dan sylw yn 'ddidaro', fod yna bosibilrwydd y gellid dod i gasgliad yn rhesymol bod cyfraniad yr Aelod wedi cael ei ddylanwadu gan y rhodd, a bod achos o dorri'r Rheolau Sefydlog (yn benodol 13.8A) wedi digwydd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod hyn yn achos o dorri oherwydd esgeulustod yn hytrach nag anwybyddu bwriadol o'r gofynion ynghylch datgan buddiannau perthnasol.

**32.** Mae'r Pwyllgor yn canfod bod yr Aelod yn torri darpariaeth o'r Rheolau Sefydlog sydd o fewn awdurdodaeth y Comisiynydd Safonau a'r Pwyllgor. Ar ôl ystyried canfyddiadau ffeithiol y Comisiynydd ynghylch amgylchiadau'r achos o dorri, mae'r Pwyllgor o'r farn na ddylid argymell unrhyw gamau pellach ar yr achlysur hwn.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Senedd, yn unol â pharagraff 8.22(a) o'r Weithdrefn, fod achos o dorri'r Cod wedi'i ganfod ond na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.

# 4. Gwersi a ddysgwyd o'r gŵyn hon

**33.** Roedd yn destun gofid i'r Pwyllgor fod manylion y gŵyn hon wedi'u rhyddhau heb awdurdod i'r cyfryngau cyn cwblhau'r broses gwyno.

**34.** Mae'r angen i ddatgan buddiannau perthnasol yn rhan allweddol o drafodion seneddol. Mae'n sicrhau tryloywder a didwylledd mewn dadleuon.

**35.** Mae'r gofyniad ar gyfer datgan buddiannau perthnasol wedi'i nodi yn y Rheolau Sefydlog. Dywed Rheol Sefydlog 13.8[9]:

> *Cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y cyfarfod llawn, rhaid i Aelod ddatgan unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac a ellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod.*

**36.** Felly, mae dwy elfen i'r prawf ar gyfer datgan, yn gyntaf a yw'r buddiant yn berthnasol i'r trafodion, ac yna a ellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod.

**37.** Yn y gŵyn hon, roedd y Pwyllgor yn glir bod buddiant perthnasol. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor fod yr Aelod wedi tynnu sylw at nifer o resymau dros ddod i'r casgliad na ellid yn rhesymol ystyried bod y buddiant wedi dylanwadu ar y cyfraniad, gan gynnwys:

i. Gweithredu yn rhinwedd ei swydd ar y pryd fel y Prif Weinidog;

ii. Cyfeirio at undebau llafur eraill yn ogystal ag Unite; a

iii. Gwnaed y cyfeiriadau at Unite mewn dadl ar bwnc gwahanol.

**38.** Mae'r Pwyllgor yn derbyn y gellid ystyried y rhain yn rhesymau dilys dros beidio ag ystyried bod hyn wedi dylanwadu'n rhesymol ar y cyfraniad.

**39.** Fel y nodir ym mharagraffau 20 – 22, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad gan y Comisiynydd ynghylch sut y daeth i'r casgliad y gallai'r buddiant hwn fod wedi dylanwadu'n rhesymol ar gyfraniad yr Aelod. Mae'r Pwyllgor yn derbyn safbwynt y

[9] Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â datganiad a wnaed yn y Cyfarfod Llawn sy'n cael ei lywodraethu gan Reol Sefydlog 13.8, mae Rheol Sefydlog gyfatebol ar gyfer Pwyllgorau y gellir ei gweld yn Rheol Sefydlog 17.24.

Comisiynydd bod defnyddio’r term ‘gallai ddylanwadu’ yn gofyn am ddehongliad gwahanol i ‘wedi dylanwadu’, o ystyried nad yw ‘gallai’ yn gofyn am dystiolaeth ei fod wedi digwydd mewn gwirionedd.

**40.** Dyma un o’r cwynion cyntaf yn ymwneud â chymhwyso’r Rheolau Sefydlog sy’n ymwneud â datgan buddiannau, ers i’r newidiadau gael eu gwneud i ofynion yn 2014, a’r achlysur cyntaf y bu’n rhaid i’r Pwyllgor hwn ystyried ei weithrediad a’i ddehongliad.

**41.** Mae’r Pwyllgor o’r farn mai effaith ail elfen y prawf ar gyfer yr angen i wneud datganiad o dan RhS13.8A yw y gall fod amgylchiadau lle, er bod gan Aelod neu aelod o’i deulu fuddiant, neu y mae’r Aelod neu aelod o’i deulu yn disgwyl cael buddiant sy’n berthnasol i’r trafodion hynny, nad oes angen ei ddatgan, oherwydd na allai eraill ei ystyried yn rhesymol y byddai’n dylanwadu ar ei gyfraniad.

**42.** Nododd y Pwyllgor gyda diddordeb fod Tŷ’r Cyffredin yn nodi canllawiau ynghylch pryd nad oes angen datgan buddiant, sy’n rhoi eglurder defnyddiol i ASau yn y maes hwn:

> *6. The test of relevance is whether those interests might reasonably be thought by others to influence his or her actions or words as a Member.*
>
> *7. Members are not required to declare an interest:*
>
> *a) if to do so would unduly impede the business of the House; for example, during oral Questions, when asking supplementary Questions, or when responding to a Ministerial statement; or*
>
> *b) when voting, either in the House or in committee. But a Member who has a relevant registerable interest which has not yet been registered should seek to register it before the vote; or if this is not possible, as soon as possible afterwards; or*
>
> *c) if that interest is a benefit is available to all Members, such as the parliamentary salary, or expenses met from parliamentary sources or from a scheme for parliamentary expenses*
>
> *d) if it is a benefit provided by the Members own party (unless it is registerable under Category 2: Donations and other support for activities as a Member of Parliament);*

**43.** Mae’r Pwyllgor yn bwriadu ystyried a ellid diwygio’r canllawiau ar gyfer datganiadau i egluro sefyllfaoedd pan nad oes eu hangen. Fel rhan o’r ystyriaeth

hon, bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â'r Llywydd a Chadeiryddion y Pwyllgorau ynghylch yr effaith bosibl y gallai unrhyw newidiadau o'r fath ei chael ar drafodion.

**44.** Fel y cyfeirir ato yn y pedwerydd adroddiad ar bymtheg i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9, mae'r Pwyllgor ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad i gofrestru a datgan buddiannau.

**45.** Mae'r Pwyllgor eisoes wedi nodi'r angen i gynnwys dyddiadau yn y gofynion cofrestru, y cyfeirir ato yn adroddiad y Comisiynydd fel rhan o'r gwaith hwn. Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol fel rhan o'r gwaith hwn:

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Llywydd y dylid diwygio'r Ffurflen i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu'r dyddiad pryd y cododd y buddiant, pryd y cafodd ei ddiwygio, a phryd y daeth i ben, a bod y dyddiad hwn a'r dyddiad y diweddarwyd y Gofrestr yn cael eu cyhoeddi ar y Gofrestr. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn diweddaru'r Canllawiau yn unol â hynny

**46.** Bydd yr argymhelliad hwn hefyd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad sydd ar ddod.

**47.** Bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth bellach i'r materion eraill sydd wedi codi drwy'r gŵyn hon fel rhan o'r gwaith ar ddatganiadau.

# Atodiad A – Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau Dros Dro

**REPORT**

**by**

**SENEDD COMMISSIONER FOR STANDARDS**

**of the investigation of a complaint against**

**Eluned Morgan MS**

*Introduction*

1. On 18 February 2025 [redacted] ("the Complainant") submitted a complaint alleging that during a plenary session of the Senedd on 17 September 2024 Eluned Morgan MS ("the Member") had failed to declare a relevant interest before taking part in the proceedings.[1]

2. I have considered the complaint in accordance with the Procedure for Dealing with Complaints against Members of the Senedd ("the Procedure").

3. As required by paragraph 7.4(e) of that Procedure the complaint, the representations made about the Findings of Fact and all the evidence I relied upon in forming my opinion are at Annex A. Links to the documents are provided in the footnotes.

4. The complaint document contained two complaints against another Member and a second complaint against the Member all of which I found to be inadmissible. Text relating to these three inadmissible complaints has been redacted.
5. On 20 February I informed both parties of my decision that the complaint was admissible and that I had started my investigation of it.

*The investigation*

6. During my investigation I obtained information from the Member, Unite the Union and from the Register of Members Interests ("the Register"). Having considered all the information I drafted the Findings of Fact and allowed both parties seven days in which to submit written corrections or representations about them. I allowed the Member an extension of that period. The Complainant submitted no corrections or representations. The Member accepted the factual accuracy of the Findings but made representations regarding them which are considered below.[2]

---

[1] Complaint (redacted)
[2] Letter Member – Commissioner sent 16 May 2025

*Findings of Fact*

7. I found the following facts established –
   i. The Record of Proceedings for 17 September 2024 is an accurate record of what the Member said during proceedings on Statement by the First Minister: Government priorities and Statement by the First Minister: Tata Steel;[3]
   ii. The Member did not declare any interest before taking part in those proceedings*;*
   iii. During those proceedings the Member said *“I want to pay tribute to the trade unions as well, who have fought and fought and fought for the jobs in relation to steel in Wales. It is very difficult for them, I'm sure, to accept this, but they have been working incredibly hard to get the best deal possible. I know that Community union and GMB are currently balloting their members on the details of the memorandum of understanding, and I know that the ballots closed yesterday, on 16 September. So, we'll see what that's got to say. And I know that Unite the Union are not balloting their members on the MOU.”*
   iv. On that date Unite the Union had approximately 1052 members at the Tata Steelworks at Port Talbot;[4]
   v. On that date the Member was a member of Unite the Union; and
   vi. On that date the Register of Member’s Interests showed that the Member had, on an unspecified date, received *“Support to finance postage and printing of internal selection leaflet - £3,500 sponsorship from Unite the Union.”*[5]

Both parties accepted the factual accuracy of these Findings.

*Consideration*

8. Standing Order 13.8A provides *“Before taking part in any plenary proceedings, a Member must declare any interest, financial or otherwise, that the Member, or to their knowledge, a family member has or is expecting to have which is relevant to those proceedings and might reasonably be thought by others to influence the Member’s contribution.”*

9. Section 6(3)(a) of the Measure provides that any provision of Standing Orders relating to *“the registration or declaration of financial of other interests”* is a relevant provision.

[3] Record of Proceedings 17 September 2024
[4] Letter Unite the Union – Commissioner 3 April 2025
[5] Extract Register of Members’ Interests 17 September 2024

10. In her responses of 24 March[6], 28 April[7] and 16 May 2025[8] the Member denied that she had breached that Standing Order and asserted that –

- At the relevant time she was acting in her capacity as the First Minister;
- It would not be reasonable to assume that her declared interest in Unite might influence her contribution to the proceedings;
- The proceedings were about Tata Steel rather than trade unions;
- She had referred to other trade unions as well as Unite;
- Her references to Unite were made in passing in a debate on a different subject;
- Because the entry in the Register about the £3500 appeared immediately below an entry relating to the 2021 Senedd elections she assumed it would be inferred that the donation of £3500 pre-dated that election;
- There was no vote or resolution at the end of that debate;
- Employment and trade union issues were frequently debated and the facts of the present matter were not sufficiently different to require her to declare her interests;
- Requiring Members to declare an interest in similar circumstances would inhibit debate in the Senedd.

10. There is no doubt that at the relevant time the Member was acting exclusively in her capacity as the First Minister. Whilst paragraph 7(ii) of the Code of Conduct provides that the Code does not apply to Members whilst acting exclusively in their ministerial capacity, Standing Order 13.8A contains no equivalent provision. The Standing Order applies equally to Members and to ministers.

11. It is correct that the debate was about the future of the steel industry and that the Member made only two passing references to Unite the Union. There is nothing to suggest that the Member's registered interests had any influence on her contribution to the proceedings. However, the issue is not whether they had any influence but whether her interests might reasonably be thought by others to influence her contribution.

12. The fact that there was no vote or resolution at the end of the debate is irrelevant. The text of Standing Order 13.8A is clear and contains nothing to the effect that it does not apply to proceedings that do not end with a vote or resolution.

---

[6] Letter Member – Commissioner 24 March 2025

[7] Response – Member – Commissioner 28 April 2025

[8] Letter Member – Commissioner sent 16 May 2025

13. I am unable to accept the proposition that a member of the public with little or no knowledge of the Register should be expected to make any assumption as to when the £3500 was paid.

14. I do not accept the Member's assertion that the circumstances were not sufficiently different from debates on employment and trade union issues to require her to declare her interests. As the Member has accepted, the debate was about the future of the steel industry at Port Talbot and of those employed there. The Member was a member of Unite the Union who had more than one thousand members working there. She had on a date not specified in the Register, received £3500 from that union.

15. Nor do I accept that requiring Members to declare an interest in these circumstances would inhibit debate in the Senedd. All that would be required of Members would be a few words explaining their interest before participating in the proceedings.

16. Having considered all the circumstances I am satisfied that a member of the public, such as the Complainant, might reasonably think that the Member's membership of Unite the Union and her receipt, on an unknown date, of £3500 from it might influence her contribution to the proceedings

*Opinion*

17. It is my opinion that the Member had a relevant interest, namely her membership of Unite the Union and her receipt of £3500 from it, which she should have declared before taking part in the plenary proceedings on 17 September 2024. By failing to do so the Member failed to comply with Standing Order 13.8A and so breached a relevant provision.

*Matter of general principle*

18. It is unsatisfactory that many entries in the Register show neither the date on which the interest came into being nor the date on which it was registered.

19. The Member suggested that others would find it helpful if guidance was given on the length of time that a registerable interest should remain on the Register. I doubt that it is possible to give such guidance as the length of time will depend on all the circumstances. For example, it might well be appropriate for receipt of a donation or gift of say £100,000 to remain on the Register for many years whereas a donation of a few hundred pounds might be removed much sooner. The need to have an interest registered comes to an end only when it could no longer reasonably be thought by others that it might influence a Member's contribution to proceedings. Where there is any doubt, Members should register and declare an interest.

20. I recommend that during its Inquiry into the Registration and Declaration of Interests the Committee considers these matters.

Douglas Bain CBE TD
Senedd Commissioner for Standards 28 May 2025

## Appendix A – Documents relied upon

1. Complaint (redacted)
2. Letter Member – Commissioner sent 16 May 2025
3. Record of proceedings 17 September 2024
4. Letter Unite the Union – Commissioner 3 April 2025
5. Extract Register of Members' Interests
6. Letter Member – Commissioner 24 March 2025
7. Response – Member – Commissioner 28 April 2025